

NICLAS Y GLAIS A FI – W. J. Jones

GALL nodyn cymharol ddisylw brocio'r Gcof wrth ddarllen *Y Casglwr*. Yn rhifyn y Nadolig darllenais ar dud. 21: *The prison sonnets of T. E. Nicholas, 1948*. Cyfeirio mae'r nodyn at un o'r llyfrau a argraffwyd gan W. Griffith and Co, Llundain. Mae copi o'r llyfr gen i, a chan lawer, mi wn. Fe'i hargraffwyd gan *The Cambrian News*, Aberystwyth. Mynn rhai o'n harbenigwyr byd llen nad oes unrhyw werth barddonol yng ngerddi Niclas y Glais, ac wn i ddim pam y mentrwyd ar drosi rhai o'i sonedau ar adeg pan nad oedd cyhoeddi mor hawdd â hynny.

Gallaf ddweud i'r funud pa bryd y torrais air gyntaf â Niclas y Glais (1878–1971): dau o'r gloch, bnawn Llun, 4 Medi 1939. Gwyddwn amdano cyn hyn ond roedd yn ddyd i ni, blant pentref Ysbyty Ystwyth, Ceredigion, ei gadw o hyd braich. Doedd dim angen llawer i godi swliddod plant y mynydd i'r wyneb a themlem fod Niclas yn rhy wahanol i bawb arall. Fel y rhan fwyaf o ddynion yr ardal gwisgai gap ffarmwr, ond roedd bob amser yn wastad ar ei gorun (nid ar dro herfeiddiol) ac yn edrych yn rhy newydd o lawer; fel cap steil. Roedd arlliw o gochni od i'w fwstas a chrogai ei sigarét wrth afaelydd. Wyddwn i ddim am neb arall ag un. Pan ddaeth ataf y pnawn hwnnw roedd yn gwisgo sandalau am ei draed disanau. Doedd dynion a wisgai sandalau ddim yn rhan o'n byd ni, blant y pentre.

Y pnawn hwn roedd ar daith tynnu dannedd. Bob hyn a hyn galwai drws nesaf i'n tŷ ni gan obeithio y byddai ganddo gwsmer. Yn ei ddisgwyl yno roedd stôl gyffredin ar lawr y gegin, bwrdd yn ei hymyl, a'r tegell yn berwi ar dân glo. Pan oedd ganddo gwsmer, byddem ni'r plant yn trefnu i chwarae'n lled agos at y tŷ. Gyda lwc gallem glywed rhywun yn codi ei lais mewn poen wrth iddo orfod ymadael â chyfaill oes. Roedd gweld Niclas yn ddigon i wella dant tost pob plentyn.

Roedd setiau radio'n brin yn 1939. Roedd mwy nag un y cin tŷ ni gan fod fy nhad yn eu gwerthu a'u hatgyweirio. Er mai plentyn own i, gwyddwn ychydig am eu perffedion a doedd hi ddim yn anodd i mi osod uchelseinydd set radio i fyny mewn llwyn ger y tŷ. Am un ar ddeg ar y bore Sul, 3 Medi, roedd ein prifweinidog parchus, Mr Neville

Chamberlain, wedi cyhoeddi ein bod ni, bobl Prydain yn mynd i ryfel yn erbyn Yr Almaen. Roedd yn adeg ofidus a phobl am wybod y newyddion diweddaraf. Deuai rhai i wrando ar y bwletinau newyddion a ddarlledid o'r llwyn bob awr.

Doedd neb yno toc am ddau o'r gloch ar y Llun ond daeth Niclas ataf i ofyn a allwn roi bywyd yn y radio: 'I ga' clywed be sy gan y diawl Chamberlain 'na i weud.' Rhoes ei eiriau gryn sioc i mi. Pardduo Mr Neville Chamberlain, ein prifweinidog, o bawb. Sodrwyd y geiriau yn fy nghof.

Aeth blynyddoedd heibio, a minnau'n fyfyrwr yn lletya yn Aberystwyth, yng nghartref un o flaenoriaid y capel Wesle yn y dref. Des i wybod bod Niclas yn un o'i ffrindiau pennaf. Wyddwn i ddim ei fod yn bregethwr nes i wr y tŷ roi tipyn o'i hanes i mi; digon imi feddwl yn dynyrach amdano. Gwyddwn iddo dreulio deufis yng ngharchar ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd am ei dueddiadau comiwnyddol, a fawr ddim arall.

Galwodd i weld ei gyfaill un noson a dechrau adrodd tipyn o'i hanes yn y carchar. Does gen i ond un gair i ddisgrifio'i stori – gwefreiddiol. Fe'm hudodd yn llwyr gan ei allu cyfareddol a'i huoddedd. Ces gopi o *Prison Sonnets* yn anrheg. Mae wedi'i lofnodi gan T E Nicholas mewn llawysgrifen gadarn ac o dan y llofnod mae'r ffigurau: 2740, ei rif yng ngharchar. Mae'r siaced lwch (a argreffir yma) am fy nghopi o hyd. Yr adeg honno gellid ei brynu am goron ond mae'n ddigon posib ei fod yn werth ychydig bunnoedd heddiw.

Dyma sydd gan y siaced lwch i'w ddweud amdano: *T. E. Nicholas is one of the significant figures in modern Wales and has already earned for himself a sure place in Welsh history. A poet, writer, preacher and rebel but, above all, a prophet, known to his fellowmen for his devotion to the cause of the common man. Nicholas is his poet, his propagandist and his politician. He is not a poet's poet: he is humanity's poet. His poetry is propaganda in the cause of the common man.*

Myn rhai iddo lunio ei sonedau yng ngharchardai Abertawe a Brixton ar bapur tŷ bach; dyna'r darlun mwyaf dramatig, ond mynnai ef mai defnyddio sialc main plentyn ysgol a llechen a wnâi. Lluniodd tua chant a hanner o sonedau Cymraeg tra oedd yno; dysgodd rai ar ei gof a llwyddo i smyglio eraill allan. Daniel Hughes, Dewi Emrys, Eric Davies, Idris Bell a Wil Ifan a'u trosodd i'r Saesneg.

Rywbryd yn ystod y pumdegau rown i ar gwrs haf yng ngholeg Harlech. Yn fuan wedi i mi gyrraedd, dechreuodd un o'm dannedd wynio. Collais noson o gwsg o'i herwydd a thrannoeth, es i chwilio am ddeintydd yn Harlech a chanfod nad oedd un yno. Ces wybod bod yr un agosaf ym Mermo a'i fod yno unwaith yr wythnos. Doedd dim i'w wneud ond dioddef, a'r bore Llun dilynol es ar fy union i Aberystwyth. Ni allwn gael triniaeth yno chwaith o achos rhestrau aros hir.

Â'm dant yn para i wynio cofiais am T. E. Nicholas; am y dyddiau cynnar hynny ac udo ambell glaf.



Bob Owen yn cael sgwrs hefo T. E. Nicholas.

Rown i wedi clywed sawl stori amdano fel deintydd, rhai'n bur ddeifiol; ond ymresymais â mi fy hun y gallwn ddiode artaith am rai munudau. Cerddais i lawr Elm Tree Avenue, Plas Grug a churo ar y drws. Daeth Mrs Nicholas i'w ateb; eglurodd nad oedd ei gŵr yn y tŷ ond y byddai'n ôl toc wedi cinio. Gallwn alw am ddau o'r gloch. Es i eistedd ar y prom i ddyfalu. Wnaeth yr oedi ddim lles i'm dewrder honedig ond doedd y boen ddim yn cilio ac rown i wrth y drws toc wedi dau. Roedd yno a ches groeso un a'm cofiai. 'Ewch at ddrws y bac. Mi fydda i gyda chi'.

Es at y drws cefn yn y wal o gwmpas y tŷ. Arweiniais hwnnw i'r ardd. Agorodd ef i mi a phecyn mewn lliain yn ei law. Fe'm harweiniodd at sied gyffredin. Wedi iddo agor y drws gallwn weld troell ddrilio a chadair freichiau gyffredin a'i chlustogau ac astell ac arni lestri a dyna i gyd. Eglurodd ei fod wedi bod yn pregethu'r Sul yn y gogledd a thra'n gwneud hynny agorodd ei becyn arfau. Doedd eu gweld ddim yn codi calon. Roedd Niclas yn ei saithdegau diweddar yr adeg honno a gallwn weld wrth iddo ddod ataf bod henaint wedi gosod ei farc arno. Crynai'r llaw a ddaliai'r nodwydd yn enbyd ac ni allwn weld sut y gallai anelu'n ddiogel; ond llwyddodd rywsut a ches i fawr ddim poen. Ond roedd y pinsiwrn i ddod.

Tra oedwn i'r cyffwr weithio, daliai i barablu'n atgofus a gofynnodd yn sydyn, 'Beth wyddoch chi am Y Wisg Sidan?' Dyna'r cwestiwn olaf y buaswn i'n ei ddisgwyl wrth eistedd mewn cadair deintydd. Ond fel y digwyddai rown i wedi ei darllen ychydig cyn hynny. 'Mae wedi cael ei lleoli yn ne sir Aberteifi, wyddoch chi. Gwybod am y plas yn iawn.' Gwyddwn ei fod ef yn hanu o Lanfyrnach, sir Benfro a bod ganddo fantais arnaf. 'Dim nofel am fywyd yn y gogledd ydy hi,' a'r pinsiwrn yn dynesu'n grynedig. Ar y pryd doedd dim ots gen i ble roedd y nofel wedi'i lleoli.

Pe bai'r gallu gen i i lunio nofel buaswn yma'n disgrifio uchafbwynt yr artaith; ond ddigwyddodd hynny ddim. Aeth y dant yn gymharol ddi-boen i ddysgl firwythau ar yr astell a ches badell fechan i boeri gwaed iddi. Rown i wrth fy modd ac yn ddigon parod i arwyddo rhyw fforms y llywodreth iddo gael ei dalu. Codais i fynd ond meddai, 'Steddwech!'

Dyweddodd ei fod yn adnabod Elena Puw Morgan yn dda a'i fod yn un o'i chyfeillion. Mynnai barhau'r sgwrs am ei gweithiau llenyddol a buom yn sgubo'r munudau'n hapus yn ei sied ardd. Roedd wedi pedwar o'r gloch y pnawn arnaf yn mynd allan i'r haul drachefn. Tybed a oes eraill ymhlith darllenwyr *Y Casglwr* wedi cael darlith lenyddol tra'n eistedd mewn cadair deintydd?

